INFORMATION SHEET 16+

CON-COV & YOUNG PEOPLE

CONTACT DETAILS

Michaela James - m.l.james@swansea.ac.uk
Professor Sinead Brophy – s.brophy@swansea.ac.uk

We would like to invited you to take part in a project by CON-COV at Swansea University. Before you decide whether or not to take part, please take the time to read the following information. If you decide to volunteer, we thank you for your participation. If you decide not to take part, there will be no disadvantage to you of any kind and we thank you for considering our request.

BACKGROUND TO THE STUDY

The coronavirus pandemic has had an extraordinary effect on the lives of young people from schools, colleges and universities being shut to the national lockdown measures. We are interested in finding out and exploring the thoughts and feelings of young people (aged 11 – 22) on coronavirus (e.g. current guidance) and how this has impacted them (e.g. their well-being). We believe young people have been neglected from conversations around the pandemic and want to give them a voice as we begin life under the 'new normal' as education and work resumes outside of the home.

WHAT WILL HAPPEN IF I TAKE PART?

If you agree to take part, we will ask you to sign a form agreeing to participation. The project will then involve you taking part in a short online survey. Your responses will be anonymous, you do not need to provide your name. If you are over 18, you may also be invited to participate in a one-to-one interview via telephone or online using video conferencing software to gather your views and experiences of your school reopening. If you agree to this, your responses will be digitally recorded and securely stored and disposed of. Survey responses will be stored securely.

WHY HAVE I BEEN INVITED?

You have been invited to take part as you are a young person living in Wales and we want you to have your say on matters that affect you.

DO I HAVE TO TAKE PART?

Participation in this research is entirely voluntary. If you decide to participate, you are reminded that you are free to withdraw at any time, without giving a reason and with no disadvantage to you of any kind.

WHAT ARE THE POSSIBLE BENEFITS IN TAKING PART?

By your participation, we aim to understand the experiences of young people and inform planning for future opportunities.

WHAT ARE THE RISKS OF PARTICIPATING IN THE STUDY?

The are no risks of participating in the study and this project has been approved by the University Research Ethics Committee (a group of people at the University who decide whether the project is okay to do).

WILL MY DATA BE KEPT CONFIDENTIAL?

All information collected will be kept private and confidential. Interviews will be digitally recorded and transcribed. Once transcribed, original recordings will be deleted. All names will be removed from transcripts and survey responses. The data will be looked at by responsible researchers at Swansea University and will be kept on password protected computers in secure offices.

WHAT WILL HAPPEN TO THE RESULTS OF THE RESEARCH STUDY?

The results will be published in recognised journals and also presented at conferences.

THANK YOU

TAFLEN WYBODAETH AR GYFER POBL IFANC 16 OED AC YN HŶN

CON-COV A PHOBL IFANC

MANYLION CYSWLLT

Michaela James - m.l.james@swansea.ac.uk
Yr Athro Sinead Brophy – s.brophy@swansea.ac.uk

Hoffem eich gwahodd i gymryd rhan mewn prosiect gan CON-COV ym Mhrifysgol Abertawe. Cyn penderfynu a ydych chi am gymryd rhan ai peidio, cymerwch amser i ddarllen y wybodaeth ganlynol. Os byddwch chi'n penderfynu gwirfoddoli, rydym yn diolch i chi am gymryd rhan. Os byddwch chi'n penderfynu peidio â chymryd rhan, ni fyddwch chi dan anfantais o unrhyw fath, ac rydym ni'n diolch i chi am ystyried ein cais.

CEFNDIR YR ASTUDIAETH

Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith eithriadol ar fywydau pobl ifanc, wrth i ysgolion, colegau a phrifysgolion gau yn sgil mesurau cyfnod clo cenedlaethol. Mae gennym ddiddordeb mewn darganfod ac archwilio meddyliau a theimladau pobl ifanc (11 – 22 oed) ar y coronafeirws (e.e. arweiniad cyfredol) a sut mae hyn wedi effeithio arnynt (e.e. eu lles). Rydym ni'n credu bod pobl ifanc wedi cael eu hanghofio mewn sgyrsiau am y pandemig, a hoffem roi llais iddynt wrth i ni ddechrau bywyd o dan y 'drefn arferol newydd', wrth i addysg a gwaith ailddechrau y tu allan i'r cartref.

BETH FYDD YN DIGWYDD OS BYDDAF I'N CYMRYD RHAN?

Os byddwch chi'n cytuno i gymryd rhan, byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen yn cytuno i gymryd rhan. Wedyn, bydd y prosiect yn golygu eich bod yn cymryd rhan mewn arolwg byr ar-lein. Bydd eich atebion yn ddienw; nid oes angen i chi roi'ch enw. Os ydych chi dros 18 oed, gellir eich gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad un-i-un hefyd, dros y ffôn neu ar-lein gan ddefnyddio meddalwedd fideo gynadledda i gasglu'ch safbwyntiau a'ch profiadau o ailagor ysgol. Os byddwch chi'n cytuno i hyn, bydd eich atebion yn cael eu cofnodi'n ddigidol ac yn cael eu storio a'u gwaredu'n ddiogel. Bydd atebion i'r arolwg yn cael eu storio'n ddiogel.

PAM YDW I WEDI CAEL GWAHODDIAD?

Rydych chi wedi cael eich gwahodd i gymryd rhan gan eich bod yn berson ifanc sy'n byw yng Nghymru, ac rydym ni am i chi gael dweud eich dweud am faterion sy'n effeithio arnoch chi.

A OES RHAID I MI GYMRYD RHAN?

Mae cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Os byddwch chi'n penderfynu cymryd rhan, gallwch chi dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm, a heb unrhyw anfantais i chi o unrhyw fath.

BETH YW MANTEISION POSIBL CYMRYD RHAN?

Yn sgil eich rhan yn yr astudiaeth, ein nod yw deall profiadau pobl ifanc a llywio cynllunio ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

BETH YW RISGIAU CYMRYD RHAN YN YR ASTUDIAETH?

Nid oes unrhyw risgiau yn sgil cymryd rhan yn yr astudiaeth, ac mae'r prosiect hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (grŵp o bobl yn y Brifysgol sy'n penderfynu p'un a yw'r prosiect yn iawn i'w wneud).

A FYDD FY NATA YN CAEL EI GADW'N GYFRINACHOL?

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei chadw'n breifat ac yn gyfrinachol. Bydd cyfweliadau'n cael eu recordio'n ddigidol, a'u trawsgrifio. Wedi iddynt gael eu trawsgrifio, bydd recordiadau gwreiddiol yn cael eu dileu. Bydd yr holl enwau'n cael eu dileu oddi ar drawsgrifiadau ac atebion i'r arolwg. Bydd ymchwilwyr cyfrifol ym Mhrifysgol Abertawe yn edrych ar y data, a bydd yn cael ei gadw ar gyfrifiaduron wedi'u diogelu gan gyfrineiriau mewn swyddfeydd diogel.

BETH FYDD YN DIGWYDD I GANLYNIADAU'R ASTUDIAETH YMCHWIL?

Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi mewn cyfnodolion cydnabyddedig, a'u cyflwyno mewn cynadleddau hefyd.

DIOLCH